# CUDDWYLIO

GWEITHDREFNAU'R CYNGOR

**CYNNWYS**


1. Cyflwyniad
2. Manteision Cael Awdurdodiad
3. Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig
4. Ffynonellau Cuddwybodaeth Ddynol
5. Proses Awdurdodi
6. Deunydd Cyfrinachol
7. Cyd Weithgarwch
8. Data Cyfathrebu
9. Trin a Datgelu Cynnyrch
10. Defnyddio Teclynnau Gwyliadwriaeth Electronig
11. Cuddwylio Gwefannau Rhwydweithio Cymdeithasol
12. Codau Ymarfer
13. Craffu a Thribiwnlys

Atodiad 1 – Rhestr o Swyddogion Awdurdodi

Atodiad 2 – Defnyddio Cyfryngau Cymdeithasol

Atodiad 3 – Ffug Gais

**ADRAN 1 – Cyflwyniad**

1. Daw pwerau Awdurdodau Lleol i gynnal gweithgarwch cuddwylio o ddarpariaethau Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r prif gyfyngiadau ar ddefnyddio'r pwerau hynny yn Neddf Hawliau Dynol 1998, ac yn benodol felly Erthygl 8 y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (Yr hawl i barch i fywyd preifat a theuluol person).

2. Mae Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 (RIPA) (wedi'i diwygio) yn rheoleiddio ymchwiliadau cuddwylio gan nifer o gyrff, gan gynnwys awdurdodau lleol. Fe'i cyflwynwyd i sicrhau bod hawliau unigolion yn cael eu parchu gan sicrhau hefyd y gall cyrff gorfodi'r gyfraith a diogeledd barhau i arfer y pwerau maen nhw eu hangen i wneud eu gwaith yn effeithiol.

3. Nid yw cuddwylio am resymau heblaw ymchwilio i droseddau troseddol cymwys yn dod o fewn cwmpas yr RIPA. Gall gwyliadwriaeth o'r fath fod yn gyfreithlon o hyd, ond mae angen gofal ychwanegol i sicrhau nad yw gwyliadwriaeth o'r fath yn tarfu ar Hawliau Dynol unigolyn.

4. Rhaid rhoi ystyriaeth i'r Codau Ymarfer a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Gartref wrth baratoi'r gweithdrefnau hyn.

5. **RHAID** i bob gweithgarwch cuddwylio a wneir gan neu ar ran y Cyngor gael ei awdurdodi gan un o'r swyddogion awdurdodi a hyfforddwyd yn briodol a restrir yn Atodiad 1 oni chafodd y gweithgarwch ei awdurdodi'n gyfreithlon o dan ddarpariaeth statudol arall a bod Swyddog Monitro'r Cyngor wedi cadarnhau nad oes felly angen awdurdodiad yn unol â'r ddogfen weithdrefn hon.

6. Dylai Swyddogion Ymchwilio a Swyddogion Awdurdodi unigol ymgyfarwyddo â'r ddogfen weithdrefn hon a'r Codau Ymarfer a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Gartref.

7. Mae penderfynu pryd mae angen awdurdodiad yn fater o farn. Fodd bynnag, os oes gan swyddog ymchwilio unrhyw amheuon, dylai ef/hi ofyn am gyngor cyfreithiol yn syth. **Fodd bynnag, y rheol gyffredinol yw ei bod bob tro'n fwy diogel gwneud cais am yr awdurdodiad priodol.**

8. Yr Uwch Swyddog yn y Cyngor a chanddi gyfrifoldeb strategol am faterion cuddwylio yw Linda Rees-Jones, Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith

9. Y Swyddog 'Porthora' sy'n gyfrifol am fetio pob cais am weithgarwch cuddwylio a chadw'r Gofrestr Ganolog yw Robert Edgecombe, Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol.

10. Yr aelod etholedig sy'n gyfrifol am adolygu defnydd yr Awdurdod o weithgarwch cuddwylio yw'r Cynghorydd Linda Evans.

## ADRAN 2 – MANTEISION CAEL AWDURDODIAD TRWY RIPA

1. Pan na cheir awdurdodiad, mae risg y gallai unrhyw dystiolaeth a gafwyd o'r herwydd gael ei hystyried yn annerbyniol mewn achosion cyfreithiol allai ddilyn.

2. Hefyd, mae gweithgarwch cuddwylio anawdurdodedig yn fwy tebygol o dorri hawliau dynol unigolyn, ac arwain at gais am iawndal yn erbyn y Cyngor.

## ADRAN 3 – GWYLIADWRIAETH GYFEIRIEDIG

1. Mae gwyliadwriaeth gyfeiriedig yn cynnwys;

- Monitro, arsylwi neu wrando ar bobl, eu symudiadau, eu sgyrsiau neu eu gweithgareddau neu gyfathrebiadau eraill.
- Recordio unrhyw beth a gafodd ei fonitro, ei arsylwi neu y gwrandawyd arno yn ystod y wyliadwriaeth.
- Gwyliadwriaeth trwy neu gyda chymorth teclyn gwyliadwriaeth.

2. NID yw gwyliadwriaeth gyfeiriedig yn digwydd pan mae niwsans sŵn tybiedig yn cael ei recordio trwy ddulliau cudd a phan mae'r teclyn recordio yn cael ei osod i recordio lefelau sŵn gormodol yn unig.

3. Mae gwyliadwriaeth gyfeiriedig yn digwydd os yw'n cael ei wneud;

- At ddibenion ymchwiliad neu weithgarwch penodol
- Mewn ffordd sy'n debygol o arwain at gael gwybodaeth breifat am berson (os cafodd rhywun eu henwi'n benodol at ddibenion yr ymchwiliad neu weithgarwch ai peidio); a

**DYLAI SWYDDOGION NODI Y GALL CADW GWYLIADWRIAETH AR WEITHGARWCH A/NEU SGYRSIAU UNIGOLYN MEWN LLE CYHOEDDUS FOD YN GYFYSTYR O HYD Â CHAEL GWYBODAETH BREIFAT**

4. Mae gwyliadwriaeth yn 'gudd' os yw'n cael ei wneud mewn ffordd sy'n ceisio sicrhau nad yw'r targed yn gwybod ei fod neu y gallai fod yn digwydd. Felly, gallai gwyliadwriaeth ar unigolyn trwy ddefnyddio camerâu CCTV agored fod angen awdurdodiad o hyd os yw'r camerâu yn cael eu targedu ar yr unigolyn hwnnw/honno ac os nad yw ef/hi yn gwybod eu bod yn cael eu gwylio.

5. Mae gwyliadwriaeth gyfeiriedig yn mynd yn 'ymyrraeth' os;

- Yw'n cael ei wneud ynghylch unrhyw beth sy'n digwydd ar unrhyw eiddo preswyl neu mewn unrhyw gerbyd preifat, ac

- Os yw'n cynnwys presenoldeb unigolyn ar yr eiddo neu yn y cerbyd neu os yw'n cael ei wneud trwy declyn gwyliadwriaeth ar yr eiddo/cerbyd, neu

- Os yw'n cael ei wneud trwy declyn gwyliadwriaeth ynghylch unrhyw beth sy'n digwydd ar unrhyw eiddo preswyl neu mewn unrhyw gerbyd preifat ond ei fod yn cael ei wneud heb i'r teclyn hwnnw fod ar yr eiddo neu'r cerbyd, pan mae'n declyn sy'n gyson yn darparu gwybodaeth o'r un ansawdd a manylder ag y gellid disgwyl ei gael gan declyn fyddai wedi cael ei osod ar yr eiddo neu gerbyd.

**NID OES GAN Y CYNGOR UNRHYW BŴER I AWDURDODI GWYLIADWRIAETH YMWTHGAR. OS OES GAN SWYDDOGION YMCHWILIO UNRHYW BRYDERON AM HYN DYLENT OFYN AM GYNGOR CYFREITHIOL YN SYTH.**

6. Mae gwyliadwriaeth ar gyfer ymchwiliad neu weithgarwch penodol os yw'n cael ei dargedu mewn ffordd a gynlluniwyd ymlaen llaw at unigolyn neu grŵp o unigolion, neu leoliad penodol neu gyfres o leoliadau.

7. Ni fydd gwyliadwriaeth angen awdurdodiad os yw'n digwydd er mwyn ymateb yn syth i ddigwyddiad neu amgylchiadau lle nad yw'n rhesymol ymarferol i gael awdurdodiad.

## ADRAN 4 - FFYNONELLAU CUDDWYBODAETH DDYNOL (CHIS)

1. Mae person yn CHIS os;

- Yw ef/hi yn sefydlu neu'n cynnal perthynas bersonol neu o fath arall gyda pherson ar gyfer y diben cudd o hwyluso gwneud unrhyw beth sy'n dod o fewn yr hyn sy'n ymddangos yn y paragraffau sy'n dilyn.
- Yw ef/hi yn defnyddio perthynas o'r fath trwy ddulliau cudd i gael gwybodaeth neu ddarparu mynediad at unrhyw wybodaeth i berson arall, neu os
- Yw ef/hi yn datgelu trwy ddulliau cudd wybodaeth a gafodd trwy ddefnyddio perthynas o'r fath neu oherwydd bodolaeth perthynas o'r fath.

2. Mae pwrpas yn un cudd yn y cyd-destun hwn os cynhelir perthynas mewn ffordd sy'n ceisio sicrhau nad yw un o'r partïon yn gwybod am y pwrpas hwnnw.

3. Polisi'r Cyngor yw y dylid trin pob gweithgarwch o'r fath yn rhai y mae angen awdurdodiad ar eu cyfer boed y wybodaeth y ceisir ei chael yn wybodaeth breifat ai peidio.

4. Wrth ystyried a ddylid defnyddio CHIS, ***RHAID*** i swyddogion ymchwilio ymgynghori â'r swyddog porthora cyn gweithredu mewn unrhyw ffordd, er mwyn sicrhau y cydymffurfir â Chod Ymarfer perthnasol y Swyddfa Gartref. Pan ddefnyddir CHIS, rhaid i'w drinydd dynodedig fod yn swyddog a hyfforddwyd yn briodol, nad yw o reidrwydd yn gweithio yn yr un adran â'r swyddog ymchwilio.

**Y PRIF WEITHREDWR YN UNIG ALL AWDURDODI CHIS PLENTYN.**

**POLISI'R AWDURDOD YW ANNOG SWYDDOGION I BEIDIO DEFNYDDIO FFYNONELLAU CUDDWYBODAETH DDYNOL. NI FYDD YR AWDURDOD OND YN GWYRO ODDI WRTH Y POLISI HWN YN YR AMGYLCHIADAU MWYAF EITHRIADOL.**

## ADRAN 5 – PROSES AWDURDODI

1. Rhaid i geisiadau fod yn ysgrifenedig, gan ddefnyddio'r ffurflenni safonol.

2. Er ei bod yn bosib cyfuno dau gais neu ragor ar yr un ffurflen, dylid ceisio osgoi gwneud hynny'n gyffredinol. Un sefyllfa lle y gallai fod yn briodol yw yn ystod ymarferiad pryniant prawf cudd yn cynnwys mwy nag un eiddo. Mewn sefyllfaoedd o'r fath dylai swyddogion ymchwilio gysylltu â'r swyddog porthora i drafod y gweithgarwch cyn llenwi'r ffurflenni.

3. Rhaid i'r ffurflen gais nodi'n fanwl:

   (a) Pa wybodaeth y gobeithir y bydd y wyliadwriaeth yn ei chael
   (b) Pam mae'r wybodaeth honno'n hanfodol i'r ymchwiliad
   (c) Pa gamau a gymerwyd yn barod i gael y wybodaeth honno

   Atodir cais enghreifftiol gyda'r ddogfen hon yn Atodiad 3

4. Unwaith y caiff y ffurflenni cais priodol eu llenwi, dylid eu danfon trwy e-bost at y swyddog porthora.

5. Yna bydd y swyddog porthora yn fetio'r cais, ei roi ar y Gofrestr Ganolog a rhoi rhif cyfeiriol canolog unigryw iddo.

6. Gall y swyddog porthora argymell newidiadau i'r cais, neu gytuno y dylid ei ddanfon heb ei newid at swyddog awdurdodi dynodedig.

7. Pan mae'n rhaid i gais gael ei awdurdodi gan y Prif Weithredwr (h.y. ceisiadau am CHIS plentyn neu wybodaeth hanfodol), bydd y swyddog porthora yn trefnu cyfarfod rhwng y swyddog ymchwilio, y swyddog porthora a'r Prif Weithredwr.

8. Ymhob sefyllfa arall, bydd y swyddog ymchwilio yn trefnu cyfarfod un o'r swyddogion awdurdodi i drafod y cais.

9. Wrth benderfynu a ddylid caniatáu awdurdodiad ai peidio, rhaid i swyddogion awdurdodi roi ystyriaeth i;

- A oes angen yr hyn a fwriedir er mwyn atal/canfod troseddau troseddol sy'n bodloni'r gofynion yn Adran 1 paragraffau 11 a 12 uchod.
- A yw'r hyn a fwriedir yn gymesur â nod y gweithgarwch
- A yw'r gweithgarwch arfaethedig yn debygol o arwain at ymyrraeth anuniongyrchol ym mywydau preifat trydydd partïon, ac os felly, a fydd pob cam rhesymol yn cael eu cymryd i gyfyngu ar y risg hwnnw.
- Ar gyfer ceisiadau i awdurdodi defnyddio CHIS, a gydymffurfiwyd â holl ofynion y Cod Ymarfer ar gyfer awdurdodi CHIS a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Gartref.

10. Os gwrthodir cais, rhaid nodi'r rhesymau am ei wrthod ar y cais

11. Os caniateir cais, rhaid i'r swyddog awdurdodi nodi;

- Cwmpas yr awdurdodiad
- Hyd yr awdurdodiad
- Dyddiad (heb fod yn fwy na 28 diwrnod) ar gyfer adolygu'r awdurdodiad.

12. Waeth beth yw canlyniad y cais, rhaid i'r swyddog ymchwilio ddanfon yn syth gopi o'r awdurdodiad neu'r cais a wrthodwyd at y swyddog porthora, fydd yn gwneud y cofnodion priodol yn y Gofrestr Ganolog, a rhoi copi o'r cais neu'r awdurdodiad yn y Cofnod Canolog.

13. Lle'n briodol bydd y swyddog porthora yna'n trefnu gwneud cais i Lys yr Ynadon i gael cymeradwyaeth farnwrol o'r awdurdodiad.

**RHAID I BOB SWYDDOG GOFIO NA FYDD AWDURDODIAD SYDD ANGEN CYMERADWYAETH FARNWROL YN DOD YN WEITHREDOL HYD NES Y CAFODD EI GYMERADWYO'N FARNWROL.**

14. Os, wedi cynnal adolygiad cychwynnol o'r awdurdodiad, yw'r swyddog awdurdodi yn penderfynu y dylai barhau'n weithredol, rhaid cynnal adolygiadau bob 28 diwrnod o oes yr awdurdodiad. Rhaid i'r swyddog

ymchwilio gadw cofnod o ganlyniadau unrhyw adolygiad a'u danfon at y swyddog porthora i'w rhoi yn y Gofrestr Ganolog.

15. Unwaith y mae swyddog awdurdodi yn penderfynu nad oes angen unrhyw awdurdodiad mwyach mae'n rhaid ei ganslo'n syth.

16. Unwaith y caiff y gweithgarwch y mae'r awdurdodiad yn ymwneud ag ef ei gwblhau, neu pan ddaw'r gweithgarwch a awdurdodwyd i ben, rhaid i'r swyddog ymchwilio gyfarfod y swyddog awdurdodi yn syth i ganslo'r awdurdodiad.

17. Pryd bynnag y caiff awdurdodiad ei ganslo, rhaid i'r swyddog awdurdodi gadarnhau'r canslo gan nodi ei farn/barn ynghylch gwerth y gweithgarwch a awdurdodwyd.

18. Pryd bynnag y caiff awdurdodiad ei ganslo, rhaid danfon copi o'r canslo hwnnw at y swyddog porthora a'i roi yn y Cofnod Canolog, a gwneud cofnodion priodol yn y Gofrestr Ganolog.

19. Oni chafodd ei ganslo ynghynt, bydd awdurdodiad yn parhau fel a ganlyn;

- Awdurdodiad ysgrifenedig ar gyfer gwyliadwriaeth gyfeiriedig– **3 mis**
- Awdurdodiad ysgrifenedig ar gyfer defnyddio CHIS – **12 mis**

20. Os, yn fuan cyn i awdurdodiad beidio bod yn weithredol, yw swyddog awdurdodi yn fodlon y cafodd y rhesymau dros adnewyddu'r awdurdodiad eu bodloni, gall ef/hi adnewyddu'r awdurdodiad. ***(Cyn adnewyddu awdurdodiad, rhaid i swyddogion awdurdodi roi ystyriaeth i adrannau priodol y Cod Ymarfer perthnasol a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Gartref)***

21. Gellir adnewyddu awdurdodiad;

- Ar gyfer adnewyddiad ysgrifenedig o awdurdodiad gwyliadwriaeth gyfeiriedig - **3 mis**.
- Ar gyfer adnewyddiad ysgrifenedig o awdurdodiad CHIS – **12 mis**.

22. Gellir adnewyddu awdurdodiad fwy nag unwaith.

23. Rhaid i geisiadau i adnewyddu awdurdodiad gofnodi pob mater sy'n ofynnol gan y Cod Ymarfer perthnasol a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Gartref

24. Pan gaiff awdurdodiad ei adnewyddu, mae'n rhaid parhau i'w adolygu yn unol â'r gofynion a nodwyd uchod.

25. Pan gaiff awdurdodiad ei adnewyddu, rhaid danfon copi o'r adnewyddiad at y swyddog porthora a'i roi yn y Cofnod Canolog a gwneud cofnodion priodol yn y Gofrestr Ganolog.

26. Lle’n briodol bydd y swyddog porthora wedyn yn trefnu gwneud cais i’r llys ynadon lleol i gael cymeradwyaeth farnwrol o’r adnewyddiad.

**RHAID I BOB SWYDDOG GOFIO NA FYDD AWDURDODIAD SYDD ANGEN CAEL EI ADNEWYDDU YN DOD YN WEITHREDOL HYD NES Y CAFODD EI GYMERADWYO’N FARNWROL.**

**PAN GAIFF CAIS EI GANIATÁU NEU EI ADNEWYDDU RHAID I’R SWYDDOG YMCHWILIO OFALU FOD POB SWYDDOG SY’N CYMRYD RHAN YN Y GWEITHGARWCH CUDDWYLIO YN CAEL CYFLE I DDARLLEN YR AWDURDODIAD AC YMGYFARWYDDO Â’I AMODAU A’I GYFYNGIADAU CYN I’R GWEITHGARWCH GYCHWYN.**

## ADRAN 6 – DEUNYDD CYFRINACHOL

1. Gwybodaeth gyfrinachol fel;
   (i) gwybodaeth feddygol bersonol
   (ii) gwybodaeth ysbrydol
   (iii) gwybodaeth newyddiadurol gyfrinachol
   (iv) gwybodaeth ag iddi fraint gyfreithiol

Mae’r wybodaeth hon yn arbennig o sensitif a cheir rhagofalon ychwanegol ar ei chyfer.

2. Mewn sefyllfaoedd lle y gellid derbyn gwybodaeth o’r fath, rhaid i ymchwilydd ofyn am gyngor cyfreithiol yn syth.

3. **Y Prif Weithredwr yn unig all awdurdodi gweithgarwch gwyliadwriaeth all arwain at gael gwybodaeth gyfrinachol.**

4. RHAID i unrhyw gais am awdurdodiad, sy’n debygol o arwain at gael deunydd cyfrinachol gynnwys asesiad o ba mor debygol y mae y bydd deunydd cyfrinachol yn cael ei dderbyn.

5. Dylid bod yn arbennig o ofalus lle y mae targed yr ymchwiliad yn debygol o fod ynghlwm wrth drin deunydd cyfrinachol. Ni ddylid ond ystyried ceisiadau o’r fath mewn amgylchiadau eithriadol a chryf iawn ac wedi rhoi ystyriaeth lawn i’r materion cyfranoldeb y mae hyn yn eu codi.

6. Mae’r egwyddorion cyffredinol canlynol yn berthnasol i ddeunydd cyfrinachol a dderbyniwyd trwy awdurdodiadau o’r fath;

- Dylai swyddogion sy’n trin deunydd o weithgarwch o’r fath fod yn effro i unrhyw beth all ddod o fewn y diffiniad o ddeunydd cyfrinachol. Pan mae unrhyw amheuaeth, dylid gofyn am gyngor cyfreithiol yn syth.
- Ni ddylid cadw na chopïo deunydd cyfrinachol onid oes ei angen at ddiben penodol.
- Ni ddylid ond rhannu deunydd cyfrinachol ar ôl cael cyngor cyfreithiol, lle y mae ei angen at ddiben penodol.
- Dylai unrhyw ddeunydd cyfrinachol sy’n cael ei gadw a/neu ei rannu gynnwys rhybudd clir ynghylch ei natur gyfrinachol.
- Dylid dinistrio deunydd cyfrinachol cyn gynted â nad oes angen ei gadw mwyach at ddiben penodol.

## ADRAN 7 – GWEITHGARWCH AR Y CYD

1. Pan mae swyddogion yn cymryd rhan mewn gweithgarwch gydag awdurdodau cyhoeddus eraill, rhaid i unrhyw weithgarwch cudd gael ei awdurdodi naill ai yn unol â’r ddogfen hon, neu gan swyddog priodol a gyflogir gan yr awdurdod arall.

2. Dylai swyddogion ofalu bob tro wrth weithredu o dan awdurdodiad a roddwyd gan awdurdod arall, fod gan y swyddog awdurdodi y pŵer i roi’r awdurdodiad hwnnw, a bod yr awdurdodiad yn cwmpasu rhychwant y gweithgarwch arfaethedig.

3. Awgrymir fod swyddogion yn gofyn am gopi o’r awdurdodiad perthnasol, neu o leiaf gael nodyn ysgrifenedig o gwmpas, hyd ac amodau’r gweithgarwch a awdurdodwyd.

4. Dylai swyddogion roi ystyriaeth hefyd i unrhyw brotocolau sy’n delio’n benodol â gweithgarwch ar y cyd.

## ADRAN 8 – DATA CYFATHREBU

1. Nid oes gan awdurdodau lleol unrhyw bŵer i darfu trwy ddulliau cudd ar gyfathrebiadau rhwng trydydd partïon megis llythyrau, negeseuon testun a galwadau ffôn.

2. Fodd bynnag, mae gan awdurdodau lleol y pŵer i rybuddio neu ofyn am awdurdodiad i gael rhai mathau o ddata post a chyfathrebu megis yn enw pwy y cofrestrwyd rhif ffôn penodol neu a yw rhywun wedi gofyn am i’w post gael ei ddargyfeirio i gyfeiriad arall.

3. Mae’r broses ar gyfer ceisio awdurdodiadau o’r fath yn cael ei chynnwys erbyn hyn yn Adran 60A Deddf Pwerau Ymchwilio 2016

4. Yn fyr, rhaid i unrhyw gais i gael gafael ar ddata cyfathrebu gael ei wneud gan y Rhwydwaith Atal Twyll Cenedlaethol (NAFN) i Swyddfa'r Comisiynydd Pwerau Ymchwilio (IPCO) ar ran y Cyngor.

5. **Dylai swyddogion sy'n dymuno cael data cyfathrebu o dan y weithdrefn hon drafod eu cynlluniau gyda'r swyddog 'Porthora' cyn cysylltu â'r NAFN.**

## ADRAN 9 – TRIN A DATGELU CYNNYRCH

1. Atgoffir swyddogion o'r rheolau ynghylch cadw a dinistrio deunydd cyfrinachol a amlinellir yn yr adran berthnasol uchod.

2. Rhaid i swyddogion awdurdodi ofalu eu bod yn cydymffurfio â'r gofynion diogelu data priodol a'r codau ymarfer perthnasol ar gyfer trin a storio deunydd.

3. Pan geir deunydd trwy wyliadwriaeth, nad oes unrhyw gysylltiad rhyngddo ag ymchwiliad troseddol neu o fath arall i unrhyw berson sy'n wrthrych ymchwiliad o'r fath, ac nad oes unrhyw reswm i gredu y bydd yn berthnasol i achosion troseddol neu sifil yn y dyfodol, dylid ei ddinistrio yn syth.

4. Cyfrifoldeb y swyddog awdurdodi yw penderfynu a ddylid dinistrio deunydd anghysylltiedig.

5. Nid yw'r gyfraith yn atal deunydd a dderbyniwyd yn briodol mewn un ymchwiliad rhag cael ei ddefnyddio mewn ymchwiliad arall. **Fodd bynnag, ni ddylid ond cymeradwyo defnyddio unrhyw wybodaeth a gafwyd trwy ddulliau cudd at ddibenion sy'n wahanol i'r rhai yr awdurdodwyd y wyliadwriaeth ar eu cyfer mewn sefyllfaoedd eithriadol a dim ond ar ôl cael cyngor cyfreithiol.**

## ADRAN 10 – DEFNYDDIO TECLYNNAU GWYLIADWRIAETH

1. Mae teclynnau gwyliadwriaeth yn cynnwys camerâu CCTV statig a symudol, camerâu cuddwylio, teclynnau monitro/recordio sŵn, ac unrhyw declynnau mecanyddol a/neu recordio a ddefnyddir at ddibenion gwyliadwriaeth.

2. Nid oes angen awdurdodiad RIPA ar gyfer camerâu diogeledd gosod, na ellir eu rheoli o bell, ***ar yr amod*** fod eu bodolaeth a'u pwrpas yn cael ei esbonio i'r cyhoedd trwy arwyddion priodol. Rheolir y defnydd o'r camerâu hyn gan ofynion ar wahân a reoleiddir gan y Comisiynydd Camerâu Gwyliadwriaeth.

3. Fel arfer, ni fydd angen awdurdodiad ar gyfer camerâu CCTV 'gosod' amlwg pan mae eu bodolaeth a'u defnydd hefyd yn cael ei esbonio trwy arwyddion. Fodd bynnag, pan ofynnir i swyddogion sy'n gyfrifol am systemau o'r fath i ganiatáu i'r heddlu (neu sefydliadau tebyg) wylio'r hyn a ffilmiwyd ar y camera mewn amser go iawn er mwyn targedu unigolion penodol, rhaid cadw at y rheolau canlynol;

- Pan wneir y cais wrth ymateb yn y fan a'r lle i ddigwyddiad neu wybodaeth a dderbyniwyd, nid oes angen awdurdodiad, ar yr amod y bodlonir y gofynion isod.
- Pan wneir y cais fel rhan o weithgarwch neu ymchwiliad a gynlluniwyd ymlaen llaw, dylai'r Swyddog sy'n gyfrifol am y system CCTV dan sylw ofyn am gael gweld yr awdurdodiad RIPA (neu grynodeb ohono) cyn i unrhyw wyliadwriaeth ddigwydd.

4. Cydnabyddir fod llawer o adrannau yn cadw camerâu arferol a chamerâu ffonau symudol i'w defnyddio gan staff yn rheolaidd. Rhaid atgoffa staff;

- Y gall fod angen awdurdodiad ar gyfer y defnydd cudd o gamerâu o'r fath (h.y. pan nad yw'r 'targed' yn gwybod fod lluniau'n cael eu tynnu ohono ef/ohoni hi).
- Yn gyffredinol, oni bai fod ffotograff cudd yn cael ei gymryd wrth ymateb yn y fan a'r lle i ddigwyddiad annisgwyl, dylid gwneud cais am awdurdodiad.

5. Efallai hefyd y bydd angen awdurdodiad ar gyfer defnyddio offer monitro/recordio sŵn, pan mae'r offer yn recordio sŵn go iawn, yn hytrach na lefelau sŵn yn unig. Bydd llawer yn dibynnu ar ba sŵn y bwriedir neu sy'n debygol o gael ei recordio.

6. Pan gaiff targed wybod yn ysgrifenedig y bydd monitro sŵn yn digwydd, nid oes angen awdurdodiad.

7. **RHAID** i Reolwyr Gwasanaethau sy'n gyfrifol am declynnau gwyliadwriaeth ofalu;

    (i) Fod y teclynnau hynny'n cael eu storio'n ddiogel a bod systemau cadarn ar waith i atal staff y Cyngor ac aelodau'r cyhoedd rhag cael gafael arnynt heb awdurdod.
    (ii) Fod cofnodion llawn a manwl-gywir yn cael eu cadw drwy'r amser yn cofnodi'r defnydd o'r teclynnau hynny gan gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) wrth eu defnyddio, pwrpas unrhyw ddefnydd, y swyddog sy'n gyfrifol am y defnydd hwnnw ac ymhle y maent yn cael eu defnyddio i gyflawni Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig, manylion unrhyw awdurdodiad sy'n caniatáu'r defnydd hwnnw.
    (iii) Fod unrhyw wybodaeth bersonol a gafwyd trwy ddefnyddio teclyn o'r fath yn cael ei thrin yn unol â Pholisïau Diogelu Data y Cyngor.

## <u>ADRAN 11 – CUDDWYLIO GWEFANNAU RHWYDWEITHIO CYMDEITHASOL</u>

1. Rhaid bod yn ofalus wrth ddefnyddio neu fonitro gwefan rhwydweithio cymdeithasol at ddibenion gwaith. Er y gall gwefan ymddangos yn ffynhonnell agored o wybodaeth sydd ar gael yn gyhoeddus, gall fod gan yr awdur ddisgwyliadau o ran preifatrwydd, yn enwedig os ydynt yn defnyddio o leiaf rai rheolyddion mynediad.

2. Mae defnyddio hunaniaeth ffug ar wefan rhwydweithio cymdeithasol i'r perwyl hwn yn cael ei ganiatáu, ond mae'n debyg y bydd angen awdurdodiad o dan amodau'r ddogfen hon.

3. Os bwriedir monitro gwefan rhwydweithio cymdeithasol sy'n golygu osgoi rheolyddion mynediad neu breifatrwydd heb i awdur y wefan wybod mai awdurdod cyhoeddus sy'n ceisio cael mynediad, mae'n debygol y bydd cuddwylio yn digwydd sy'n ymyrryd â hawliau dynol y person hwnnw neu honno a bydd angen awdurdodiad.

4. Rhaid i unrhyw ddefnydd o wefan Rhwydweithio Cymdeithasol at y dibenion hyn gydymffurfio hefyd â pholisïau'r Cyngor ar Ddefnyddio'r Rhyngrwyd a Chyfryngau Cymdeithasol.

5. DIM OND TÎM MARCHNATA A CHYFRYNGAU'R CYNGOR ALL GREU PROFFILIAU CYFRYNGAU CYMDEITHASOL FFUG I'W DEFNYDDIO GAN STAFF Y CYNGOR

6. **NI DDYLAI STAFF Y CYNGOR DDEFNYDDIO EU PROFFILIAU CYFRYNGAU CYMDEITHASOL PERSONOL I WNEUD UNRHYW FATH O WYLIADWRIAETH AT DDIBENION GWAITH O DAN UNRHYW AMGYLCHIADAU**

7. Er mwyn cael mwy o wybodaeth am weithgarwch gwyliadwriaeth ar-lein ewch i Atodiad 2

## ADRAN 12 – CODAU YMARFER

1. Mae'r Swyddfa Gartref wedi cyhoeddi Codau Ymarfer ar gyfer gwyliadwriaeth gyfeiriedig a defnyddio CHIS. Mae copïau o'r codau hyn ar gael trwy wefan y Swyddfa Gartref.

2. Er nad oes gan y codau hyn awdurdod cyfreithiol, maent yn arfer gorau, a bydd cadw atynt yn rhoi gwell cyfle i'r awdurdod wrthwynebu unrhyw honiad y cafodd yr RIPA a/neu'r Ddeddf Hawliau Dynol ei thorri.

3. Dylai swyddogion ymchwilio ac awdurdodi ofalu eu bod yn rhoi ystyriaeth i'r codau hyn wrth ddelio â cheisiadau.

## ADRAN 13 – CRAFFU A THRIBIWNLYS

Bydd Swyddfa Comisiynwyr Pwerau Ymchwilio (IPCO) yn cynnal archwiliad o'r Cyngor bob tua 2 flynedd. Gall yr arolygydd;

- Archwilio'r Gofrestr Ganolog
- Archwilio awdurdodiadau, adnewyddiadau a chansladau
- Holi swyddogion am y ffordd yr aethant ati i weithredu'r ddeddfwriaeth
- Rhoi gwybod i'r Prif Weithredwr am ei g/chanfyddiadau

Hefyd, sefydlwyd Tribiwnlys i ddelio â chwynion a wneir o dan yr RIPA. Gall y tribiwnlys ddirymu neu ganslo unrhyw awdurdodiad a gorchymyn dinistrio unrhyw gofnod neu wybodaeth a dderbyniwyd trwy unrhyw awdurdodiad o'r fath.

Gall Llysoedd a Thribiwnlysoedd eithrio tystiolaeth a dderbyniwyd yn groes i hawliau dynol unigolyn. Mae methu dilyn y gweithdrefnau a nodir yn y ddogfen hon yn ei gwneud yn fwy tebygol y gallai hynny ddigwydd.

Bydd yr Aelod Cabinet perthnasol yn cadw golwg gyson ar y ddogfen hon.

ATODIAD 1 – RHESTR O SWYDDOGION AWDURDODI O DAN DDEDDF RHEOLEIDDIO PWERAU YMCHWILIO

| Enw | Swydd |
|---|---|
| Wendy Walters | Prif Weithredwr |
| Ainsley Williams | Cyfarwyddwr yr Amgylchedd |
| Sue E Watts | Rheolwr Diogelu'r Amgylchedd |